**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (7)**

**Dydd Mawrth, 28 Mai 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i’r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiwn Brys**
**A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn a'r 435 o swyddi a fydd yn cael eu colli yn sgil y cyhoeddiad bod ffatri Dewhirst yn Abertawe yn cau.**

**Eitem 3**
**Datganiad: Prosiect 14-19 Dysgu yng Nghymru**

**Eitem 4**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 5**
**Cymeradwyo'r Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002**
*NDM1063* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:
Ystyried egwyddor Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Galw ar y Gweinidog dros Ddiwylliant i gyflwyno deddfwriaeth bellach i ddod â'r hen gyfleustodau cyhoeddus o dan amodau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 cyn gynted ag y bo modd.

*NDM1064* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:
1. Ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002;

2. Yn cymeradwyo:

a) bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002; a'r
b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Ar gael yn Saesneg yn unig
Cliciwch yma i weld Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 6**
**Dadl ar hynt y gwaith o annog mwy i gymryd rhan yn y Celfyddydau**
NDM1062 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cydnabod bod y Strategaeth Diwylliant "Creative Future: Cymru Greadigol" yn hybu cyfranogiad ym maes y celfyddydau yng Nghymru drwy:

a) Gelfyddyd yn y Gymuned
b) Pobl Ifanc
c) Amrywiaeth a Chynhwysiant Diwylliannol
d) y Celfyddydau a'r economi

2. Yn croesawu'r cynnydd sylweddol yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru.

3. Yn cytuno bod Cyngor Celfyddydau Cymru, fel y mae wedi'i ailstrwythuro, mewn sefyllfa well yn awr i ymateb i anghenion y sector celfyddydau oherwydd:

a) gweithdrefnau symlach newydd
b) bod gwasanaethau wedi'u datganoli
c) bod tim rheoli'r Cyngor wedi'i gryfhau

4. Yn croesawu'r cynnydd y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i wneud ar strategaeth bum mlynedd i ddatblygu'r celfyddydau, yn enwedig:

a) y nod craidd o alluogi mwy o bobl i fwynhau'r celfyddydau yng Nghymru
b) ymgynghori llawn ac agored â'r sector celfyddydau ac â'r cyhoedd
c) caniatáu amser realistig ar gyfer ymgynghori ac ar gyfer cyflwyno'r gwahanol agweddau ar y cynllun 5 mlynedd
d) rhoi'r blaenoriaethau yn "Creative Future: Cymru Greadigol" ar waith drwy'r cynllun 5 mlynedd

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)+(3)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ym mhwynt 4 a) ar ôl 'yng Nghymru', rhoi:
'trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod gwariant y Llywodraeth ar y Celfyddydau yn cael ei ddosbarthu'n deg ledled Cymru gan roi ystyriaeth lawn i gefnogaeth y cyhoedd i Ganolfan Mileniwm Cymru.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Llywodraeth i ymrwymo i Oriel Genedlaethol.

Gellir gweld "Creative Future: Cymru Greadigol" ar y rhyngrwyd yn: http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/creative/creative_home-e.htm - Ar gael yn Saesneg yn unig - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 30 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**